# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 25 Ionawr 2012** |
| Amser: | **09:30 – 11:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_25_01_2012&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**David Sissling, Director General for Health and Social Services, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

### 2. Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2.1 Bu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth, yn ôl cais y Pwyllgor, am: nifer y swyddi gwag sydd ar gael ar gyfer meddygon yng Nghymru, a gradd y swyddi hyn; y meini prawf a gaiff eu defnyddio i fesur llwyddiant yr ymgyrch sydd ar y gweill i recriwtio meddygon i Gymru; a nifer yr ymwelwyr iechyd sydd eu hangen i ddyblu nifer y bobl sy'n elwa o'r rhaglen Dechrau'n Deg.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau sy'n cael eu cynnal â Llywodraeth y DU am reoleiddio mewn perthynas â darparwyr preifat llawdriniaeth gosmetig, ac i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cadair olwyn a chymorth ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru.

## 3. Blaenraglen waith y Pwyllgor - materion yr UE

4.1 Cytunodd y Pwyllgor mai drwy ei waith cymharol ar gyfer ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn y dylai'r Pwyllgor fynd i'r afael yn bennaf â materion yr UE yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf.

4.2 Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol am fodelau gofal preswyl yn yr UE, gan gynnwys modelau dielw a ddefnyddir mewn gwledydd eraill, ac unrhyw wybodaeth a gafwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drwy'r broses o efeillio awdurdodau lleol yng Nghymru â chymheiriaid yn Ewrop.

4.3 Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y strategaeth iechyd, y cyfarwyddyd ar gymwysterau proffesiynol a mynediad traws-ffiniol i wasanaethau gofal iechyd.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.